# Adroddiad Blynyddol

## *Annual Report*

## Cyngor Tref **Tregaron** *Town Council*

## 2025/2026



Ebost/*Email*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Gwefan/*Website*: www.cyngor-tregaron-council.org.uk

# Tabl Cynnwys / *Table of Contents*


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd / *Chair Foreword* | 3-4 |
| Amdanom ni / *About us* | 5-7 |
| Cynlluniau Lle / *Place Plans* | 8 |
| Gwasanaethau’r Cyngor / *Council Services* | 9 |
| Cefnogi'r Gymuned / *Supporting the Community* | 10 |
| Cyllid / *Finances* | 11-12 |
| Dathliad Gŵyl Dewi / *St.David’s Day Celebration* | 13-15 |
| Garth Gymunedol<br>*Community Garden* | 16-18 |
| Grant Trefi Taclus<br>*Tidy Towns Grant* | 19 |

## Rhagair y Cadeirydd / *Chair Foreword*

Braint ac anrhydedd yw cyflwyno Adroddiad blynyddol Cyngor Tref Tregaron am y flwyddyn 2025/2026.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi hedfan heibio ac unwaith eto mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus i Gyngor Tref Tregaron. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol er mwyn cynnal ein tref a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau ar gael i drigolion lleol ac ymwelwyr.

Mae'r cynghorwyr wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn i gyflawni'r prosiectau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar ddechrau'r tymor, ac rwy'n falch o allu adrodd bod llawer o'r rhain wedi'u cyflawni'n llwyddiannus.

Yn ogystal â'r mapiau tref, mae'r byrddau llwybr hanes bellach yn eu lle ac yn cael eu mwynhau'n rheolaidd gan drigolion ac ymwelwyr. Mae ceisiadau grant llwyddiannus wedi ein galluogi i wella ymddangosiad y dref ymhellach drwy lanhau'r strydoedd, ailbeintio'r toiledau cyhoeddus, buddsoddi mewn baneri newydd, a darparu blodau ar gyfer y nifer fawr o botiau blodau ledled y dref.

Derbyniodd y digwyddiad iechyd a lles, a gefnogwyd gan y Cyngor Tref, adborth rhagorol, ac rydym yn falch o fod yn gweithio gyda'r trefnwyr i gynnal digwyddiad arall yn y dyfodol. Yn gyffrous iawn, mae'r ardd gymunedol bellach wedi'i sefydlu gyda chymorth gwirfoddolwyr gwybodus a brwdfrydig. Rydym yn annog pawb i ymweld a mwynhau'r ardd wrth iddo barhau i ddatblygu.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyngor Tref hefyd wedi bod yn falch o drefnu a chynnal digwyddiadau cymunedol pwysig gan gynnwys Gwasanaeth Sul y Cofio, Troi Goleuadau'r Nadolig ymlaen, taith Siôn Corn, a Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi - pob un wedi'i gefnogi'n wych gan ein cymuned.

Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi sefydliadau lleol drwy ein cynllun rhoddion elusennol blynyddol, gan gydnabod bod y cymorth hwn yn hanfodol yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn falch o groesawu nifer o gynghorwyr newydd i'r Cyngor. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Dewi Evans, Owain Pugh, Sian Jones a Jo-Alice Davies am eu gwasanaeth a'u cyfraniad dros nifer o flynyddoedd yn dilyn eu hymddiswyddiadau.

Yn olaf, hoffwn estyn fy niolch diffuant i'm cyd-gynghorwyr am eu hymroddiad, eu cefnogaeth a'u harweiniad drwy gydol y flwyddyn; i'n Clerc am ei gwaith diflino, ni fyddai cymaint yn bosibl hebddi; i'n gweithiwr strydlun; ac i gymuned wych Tregaron am eich cefnogaeth barhaus.

Gobeithio y bydd 2026/2027 yn flwyddyn hapus, lwyddiannus a chynhyrchiol arall i'n tref.

*Cyng. Rhian Hughes,* Cadeirydd, Cyngor Tref Tregaron

*It is an honour to present Tregaron Town Councils annual report for 2025/2026.*

*The past year has flown by and has once again been a busy and successful year for Tregaron Town Council. The Council continues to take on additional responsibilities to help maintain our town and ensure that services remain open and available for local residents and visitors alike.*

*Our councillors have worked tirelessly throughout the year to progress the projects and priorities identified at the beginning of the term, and I am pleased to report that many of these have been successfully achieved.*

*Alongside the town maps, the history trail boards are now in place and are regularly enjoyed by both residents and visitors. Successful grant applications have enabled us to further enhance the appearance of the town through street cleaning, repainting of the public toilets, investment in new bunting, and the provision of flowers for the many planters throughout the town.*

*The health and wellbeing event, supported by the Town Council, received excellent feedback, and we are delighted to be working with the organisers to arrange another event in the future. Excitingly, the community garden is now up and running thanks to the support and dedication of knowledgeable volunteers. We warmly encourage everyone to visit and enjoy the space as it continues to develop.*

*Throughout the year, the Town Council has also been proud to organise and host important community events including the Remembrance Sunday Service, the Christmas Lights Switch-On, Santa's visit, and the St David's Day Parade — all of which were wonderfully supported by our community.*

*The Council also continues to support local organisations through our annual charitable donation scheme, recognising that this assistance is often greatly needed during the current economic challenges.*

*Over recent months, we have been pleased to welcome several new councillors to the Council. I would also like to take this opportunity to thank Dewi Evans, Owain Pugh, Sian Jones and Jo-Alice Davies for their dedicated service and contribution over many years following their resignations.*

*Finally, I would like to extend my sincere thanks to my fellow councillors for their dedication, support, and guidance throughout the year; to our Clerk for her tireless hard work, without whom so much would not be possible; to our Streetscene Worker; and to the wonderful community of Tregaron for your continued support.*

*Here's hoping that 2026/2027 will be another happy, successful, and productive year for our town.*

*Cllr Rhian Hughes,* *Chair, Tregaron Town Council*

# Amdanom ni / *About us*

Saif Tregaron yng nghysgod mynyddoedd y Cambrian; mae yn un o'r chwech prif-drefi marchnad yng Ngheredigion ac wedi gefeillio gyda Plouvien yn Llydaw ers 1999.


Mae'r Cyngor Tref yn ymatebol i bobl Tregaron ac mae yn ddyletswydd ar y Cyngor i gynrychioli gwahanol ddiddordebau o fewn y gymuned, yn gyfartal.

Mae'r Cyngor yn cwrdd ar y trydydd nos Lun o bob mis, ar wahân i fis Awst, a hynny am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Goffa.

Nid oes wardiau ac mae un-ar-ddeg o Gynghorwyr ar y Cyngor. Etholir cynghorwyr bob pum mlynedd a chynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, pryd y dewisir Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Cyflogir Clerc i redeg busnes y Cyngor, ynghyd â gweithiwr Strydlun rhan amser.

Yn flynyddol, rhoddir cyfle i fudiadau niferus yn Nhregaron i gynnig am grant tuag at eu hamrywiol weithgareddau.




*Tregaron stands in the shadow of the Cambrian Mountains, it is one of the six main market towns of Ceredigion and twinned with Plouvien, in Brittany, since 1999.*

*The Town Council is accountable to the people of Tregaron and has a duty to represent the varied interests of the community equally.*

*Meetings are held monthly, on the third Monday, with the exception of August, at 7.30 pm in the Memorial Hall.*

*There are no wards and eleven Councillors are elected to the Council every five years. The annual general meeting is held in May, when a Chair and Vice-Chair are selected.*

*A Clerk is employed to conduct the business of the Council, as well as a part-time Street scene worker.*

*Every year, there is an opportunity for numerous organisations in Tregaron, to apply for a grant towards their activities.*

Mae'r Cyngor yn cynnwys 11 aelod etholedig ac rydym yn cyflogi 2 aelod o staff rhan amser – Clerc a Gweithiwr Strydlun.

*The Council consists of 11 elected members and we employ 2 part time staff – Clerk and Street Scene Worker –*

Cynghorwyr / *Councillors –*

- Cyng / *Cllr* Catherine Hughes
- Cyng / *Cllr* Arwel Jones
- Cyng / *Cllr* Rhian Jones
- Cyng / *Cllr* Owain Pugh (ymddiswyddodd yn Hydref 2025 / *Resigned in October* 2025)
- Cyng / *Cllr* Dafydd Richards
- Cyng / *Cllr* Sian Jones (ymddiswyddodd yn Medi 2025 / *Resigned in September* 2025)
- Cyng / *Cllr* Rhian Hughes (Chair)
- Cyng / Cllr Gwion James (Vice-Chair)
- Cyng / Cllr Meirian Morgan
- Cyng / Cllr Jo-Alice Davies (ymddiswyddodd yn Mawrth 2026 / Resigned in March 2026)
- Cyng / Cllr John Davies (ymunodd yn Tachwedd 2025 / *Joined in November* 2025)
- Cyng / Cllr Cerith Evans (ymunodd yn Tachwedd 2025 / *Joined in November* 2025)
- Cyng / Cllr Sam Jones (ymunodd yn Ionawr 2026 / *Joined in January* 2026)

Staff / *Staff* –

- Fflur Lawlor (Clerc / *Clerk*)
- Noel Jones (Gweithiwr Strydlun / *Street Scene Worker*)

Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion / *Ceredigion County Council Local Member –*

- Cyng / *Cllr* Ifan Davies
-

<u>Presenoldeb Cyfarfodydd Llawn y Cyngor 2025-2026 /*Full Council Meeting Attendance 2025-2026*</u>

| **Cyng/*Cllr*** | **19/05/2025** | **16/06/2025** | **28/07/2025** | **15/09/2025** | **20/10/2025** | **17/11/2025** | **15/12/2025** | **19/01/2026** | **16/02/2026** | **16/03/2026** | **20/04/2026** | **Cyfanswm/ *Total*** | **%** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Catherine Hughes | | | | | | | | | | | | 10 | 90.91% |
| Arwel Jones | | | | | | | | | | | | 10 | 90.91% |
| Rhian Jones | | | | | | | | | | | | 8 | 72.73% |
| Owain Pugh (Ymddiswyddo/Resigned 10/25) | | | | | | | | | | | | 1 | 9.09% |
| Dafydd Richards | | | | | | | | | | | | 9 | 81.82% |
| Sian Jones (Ymddiswyddo/Resigned 09/25) | | | | | | | | | | | | 1 | 9.09% |
| Rhian Hughes | | | | | | | | | | | | 11 | 100.00% |
| Gwion James | | | | | | | | | | | | 9 | 81.82% |
| Meirian Morgan | | | | | | | | | | | | 7 | 63.64% |
| Jo-Alice Davies (Ymddiswyddo/Resigned 03/26) | | | | | | | | | | | | 6 | 54.55% |
| John Davies (Ymunodd / Joined 11/25) | | | | | | | | | | | | 5 | 45.45% |
| Cerith Evans (Ymunodd / Joined 11/25) | | | | | | | | | | | | 6 | 54.55% |
| Sam Jones (Ymunodd / Joined 01/26) | | | | | | | | | | | | 3 | 27.27% |
| Ifan Davies (Aelod Lleol CSC / CCC *Local Member*) | | | | | | | | | | | | 3 | 27.27% |
| Fflur Lawlor (Clerc / Clerk) | | | | | | | | | | | | 11 | 100.00% |

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo'r is-bwyllgorau canlynol –

*The Council meets on a monthly basis and has the following sub-committees –*

| **Is-bwyllgorau a Chynrychiolwyr ar bwyllgor allanol / *Sub-Committees & External Committee Representation*** | **Aelod / *Member*** |
|---|---|
| Gweinyddiaeth / Un Llais Cymru / Cyllid<br>*Administration / One Voice Wales / Finance* | Clerc / *Clerk*<br>Cadeirydd / *Chair*<br>Is-Gadeirydd / *Vice Chair* |
| Iaith Gymraeg<br>*Welsh Language* | Clerc / *Clerk*<br>Cyng / *Cllr* Arwel Jones |
| Tregaron Taclus-Stryd/Meinciau/Gweithiwr Strydwedd<br>*Tidy Tregaron-Street/Benches/Street Scene Worker* | Cyng / *Cllr* Dafydd Richards<br>Cyng / *Cllr Gwion James*<br>Cyng / *Cllr* Sian Jones<br>Clerc / *Clerk* |
| *Parc / Blodau*<br>*Park / Flowers* | Cyng / *Cllr* Rhian Jones<br>Cyng / *Cllr* Owain Pugh<br>Cyng / *Cllr Jo-Alice Davies*<br>Cyng / *Cllr Rhian Hughes* |
| Bwrdd Digidol<br>*Digital Board* | Cyng / *Cllr* Meirian Morgan<br>Cyng / *Cllr* Arwel Jones<br>Clerc / *Clerk* |
| Busnesau / Digwyddiadau Lleol<br>*Local Businesses / Events* | Cyng / *Cllr* Gwion James |
| Llwybrau Cyhoeddus<br>*Public Footpaths* | Cyng / *Cllr* Owain Pugh<br>Cyng / *Cllr* Dafydd Richards |
| Cylch Caron / Canolfan Deulu<br>*Cylch Caron / Family Centre* | Cyng / *Cllr* Catherine Hughes |
| Cynllunio / Twristiaeth / Hamdden / Cynlluniau Lle<br>*Planning / Tourism / Leisure / Place Plans* | Cyng / *Cllr* Dafydd Richards<br>Cyng / *Cllr* Arwel Jones<br>Clerc / *Clerk* |
| Hamdden Caron *Leisure* | Cyng / Cllr Rhian Jones |
| Nadolig / *Christmas* | Cyng / *Cllr* Arwel Jones<br>Cyng / *Cllr* Rhian Jones<br>Cyng / *Cllr* Owain Pugh<br>Cyng / *Cllr* Sian Jones<br>Clerc / *Clerk* |

# Cynlluniau Lle / *Place Plans*

Mae Cynlluniau Cynefin yn fecanwaith a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gymunedau ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio ac i gynllunwyr gefnogi mentrau creu cynlluniau gyda phobl leol.

Gall Cynlluniau Cynefin ddarparu cyfle i gynnig coethi manylion polisi cynllunio (canllaw thematig neu'n safle benodol) ar gyfer ardaloedd lleol a ddylai adlewyrchu arwahanrwydd lleol a delio â materion lleol a'r rhai sy'n benodol i'r gymuned.

Mae Cynlluniau Cynefin yn delio ag ardal gymunedol neu glwstwr o araloedd cymunedol a disgwylir bod eu paratoi, yn ddelfrydol ond nid yn gyfangwbl,yn cael ei arwain gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Mae'r Cynlluniau Cynefin ar gyfer ardaeloedd gyda Chyngorau Tref bellach ar gael i'w gweld, sef Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Cei Newydd a Thregaron, ac yn yr achos hwn maent wedi eu paratoi gan y Cynghorau Tref. Os hoffech ddysgu mwy, cysylltwch â Cyngor Tref Tregaron.

Gellir gweld y Ddogfen ar gyfer tref Tregaron yma – 2024-cynllun-bro-tregaron.pdf

*Place Plans are a mechanism introduced by Welsh Government for communities to engage creatively with the planning process and for planners to support in place-making initiatives with local people.*

*Place Plans can provide an opportunity to offer a finer grain of planning policy detail (thematic or site specific guidance) for local areas that should reflect local distinctiveness and address local, specific community scale issues.*

*Place Plans are to cover a community area or a cluster of community areas and the expectation is that their preparation should ideally, although not exclusively, be led by Town and Community Councils.*

*The Place Plans for areas with Town Councils are now available to view, namely Aberaeron, Aberystwyth, Cardigan, Lampeter, Llandysul, New Quay and Tregaron, and in this instance they have been prepared by the Town Councils.If you would like to learn more, please get in touch with Tregaron Town Council.*
*The Document for Tregaron town can be seen here -* 2024-tregaron-place-plan.pdf

## Gwasanaethau'r Cygor / *Council Services*

Mae'r Cyngor yn darparu llawer o wasanaethau lleol ac yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion a grwpiau Cymunedol i gefnogi'r gymuned.

Yn benodol rydym ni -

- Gofalu am gerflun Henry Richard ar Sgwâr Tregaron
- Darparu cyfleusterau cyhoeddus mewn partneriaeth ag Arwerthwyr DAG ym Mart Tregaron, Heol yr Orsaf, Tregaron
- Darparu arddangosfeydd blodau mewn llawer o leoliadau ar draws y dref
- Cynnal y meinciau ledled y dref
- Trefnu nifer o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys sesiynau codi sbwriel, troi'r goleuadau Nadolig ymlaen a Thaith Siôn Corn
- Yn rheoli Parc Tregaron (ar brydles gan Gyngor Sir Ceredigion)
- Cydlynu'r Bwrdd Digidol sydd wedi'i leoli ar Sgwâr Tregaron
- Yn gyfrifol am y biniau gwastraff cŵn
- Cylch Cerrig
- Coed Nadolig a Goleuadau
- Sul y Cofio
- Gwobr a Dathliad Gŵyl Dewi
- Gardd Cymunedol

*The Council provides many local services and works with Ceredigion County Council and Community groups to support the community.*

*In particular we –*

- *Look after the statue of Henry Richard on Tregaron Square*
- *Provide Public conveniences in partnership with DAG Auctioneers at Tregaron Mart, Station Road, Tregaron*
- *Provide floral displays in many locations across the town*
- *Maintain the benches throughout the town*
- *Arrange a number of community events including litter picks, turning on the Christmas lights and the Santa Tour*
- *Manages Tregaron Park (leased from Ceredigion County Council)*
- *Co-ordinate the Digital Board located on Tregaron Square*
- *Responsible for the Dog waste bins*
- *'Cylch Cerrig'*
- *Christmas Trees and Lights*
- *Remembrance Sunday*
- *St.David Day Award & Celebration*
- *Community Garden*

## Cefnogi'r Gymuned / *Supporting the Community*

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'r holl grwpiau sy'n trefnu digwyddiadau yn ein cymuned, boed yn un digwyddiad neu yn ddigwyddiadau rheolaidd.

Mae'r cyngor yn dyrannu rhywfaint o'i gyllideb bob blwyddyn i gefnogi grwpiau lleol. Eleni rhoesom grantiau gwerth cyfanswm o £1500 ar gyfer grwpiau sy'n cwmpasu'r ystod lawn o'n preswylwyr o'r ieuengaf i'r ieuengaf ein hynaf.

Yn ogystal, rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau trwy arddangos posteri ac erthyglau ar ein hysbysfyrddau, ein gwefan a thudalen Facebook Tregaron a rhoi cymorth a chyngor lle gallwn.

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1500 pellach tuag at gymorth grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-27 ac mae manylion am sut i wneud cais ar ein gwefan.

*The Council is grateful to all the groups that organise events in our community, whether they be one off or regular events.*

*The council allocates funds each year to support local groups. This year we gave grants totalling £1500 for groups encompassing the full range of our residents from the youngest to our most senior.*

*In addition, we publicise events by displaying posters & articles on our noticeboards, website and Tregaron Facebook page and give help and advice where we can.*

*The Council has allocated a further £1500 towards grant support for the 2026-27 financial year and details of how to apply can be found on our website.*

Cefnogwyd y mudiadau canlynol –
*The following organisations were supported –*

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Canolfan Treftadaeth Tregaron *Heritage Centre* | £150 |
| 2. | Carnifal Tregaron *Carnival* | £150 |
| 3. | Clwb Hoci Caron *Hockey Club* | £150 |
| 4. | Eisteddfod Gadeiriol Tregaron | £150 |
| 5. | Merched y Wawr Tregaron | £150 |
| 6. | Tregaroc | £150 |
| 7. | Y Barcud | £150 |
| 8. | Adran Iau Clwb Pel-droed Tregaron Turfs *FC Junior Section* | £150 |
| 9. | Eglwys St.Caron *Church* | £150 |
| 10. | Undeb y Mamau Tregaron *Mothers Union* | £150 |

# Cyllid / *Finances*

Rheolir gwariant y Cyngor gan broses gyllidebu a monitro. Wrth osod ei gyllideb mae'r Cyngor yn anelu at ddarparu gwasanaethau, rheoli cyfleusterau a chyflawni ei flaenoriaethau. Ystyrir y gyllideb yng nghyfarfod misol Ionawr yn flynyddol.

Er mwyn rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol mae Cyngor Tref Tregaron:

- Ymdrechu i gael gwerth am arian
- Monitro a rheoli gwariant yn unol â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol
- Ystyried cymariaethau cyllidebol yn erbyn gwirioneddol drwy gydol y flwyddyn
- Yn darparu cyllid grant
- Nodi prosiectau'r dyfodol, yn ôl yr angen

Crynodeb ariannol ar gyfer y flwyddyn 2025/26:

| | | |
|---|---|---|
| *Balans ar 31/03/25* | | 19,064 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | -45,500 |
| *Praesept (Treth y Cyngor)* | 30,000 | |
| *Amryw. Incwm* | 14,313 | |
| *Nawdd Grant* | 0.00 | |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | 44,313 |
| ***Balans ar 31/03/26*** | | ***16,486*** |

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu harchwilio bob blwyddyn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Mae cyfrifon diwedd blwyddyn 2024/25 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor a byddant ar gael i'w harchwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2025/26 wedi'u harchwilio'n briodol ond heb eu hardystio eto gan yr archwilydd allanol. Yn ôl y gyfraith mae gan unrhyw berson â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon Cyngor. Os oes gennych hawl ac wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Cyngor Tref, yna mae gennych chi (neu'ch cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd penodedig am gyfrifon y cyngor neu herio eitem o gyfrif sydd ynddynt.

Os hoffech chi fel preswylydd gyflwyno unrhyw awgrymiadau i'r Cyngor ar gyfer prosiectau yn y dyfodol a fyddai o fudd i'r gymuned ac yn hybu llesiant, cysylltwch â'r Clerc.

*The Council's expenditure is controlled by a budgeting and monitoring process. In setting its budget Council aims to provide services, manage facilities and meet its priorities. The budget is considered at the January monthly meeting annually.*

*In order to effectively manage public funds Tregaron Town Council:*

- *Strives to obtain value for money*
- *Monitors and controls expenditure as per its Standing Orders and Financial Regulations*
- *Considers budget versus actual comparisons throughout the year*
- *Provides grant funding*
- *Identifies future projects, as required*

*Financial summary for the year 2025/26:*

| | | |
|---|---|---|
| *Balance as at 31/03/25* | | 19,064 |
| **Total Expenditure** | | -45,500 |
| *Precept (Council Tax)* | 30,000.00 | |
| *Misc. Income* | 14,313 | |
| *Grant received* | 0.00 | |
| **Total Income** | | 44,313 |
| ***Balance as at 31/03/26*** | | ***16,486*** |

*The Council's accounts are audited each year in accordance with the Accounts and Audit (Wales) (Amendment) Regulations 2018. End of year accounts for 2024/25 are available to view on the Council's website and will be available for inspection later in the year.*

*The accounts for the year 2025/26 have been duly audited but not yet certified by the external auditor. By law any interested person has the right to inspect a Council's accounts. If you are entitled and registered to vote in the Town Council elections, then you (or your representative) also have the right to ask the appointed auditor questions about the council's accounts or challenge an item of account contained within them.*

*If, as a resident you would like to put forward any suggestions to Council for future projects that would benefit the community and promote well-being, please contact the Clerk.*

Cynhaliwyd dathliad Gŵyl Dewi Tregaron prynhawn Gwener 27ain o Chwefror yng nghwmni Ysgol Henry Richard.

Cychwynnodd y Parêd o'r ysgol lawr trwy'r dref tuag at y Neuadd Goffa lle roedd y Pictôns yn ein croesawi. Croesawyd pawb gan Cadeirydd y Cyngor Tref, Cyng. Rhian Hughes a chafwyd eitemau gan ddisgyblion Ysgol Henry Richard.

Dilwyn Daniel oedd enillydd Gwobr Gŵyl Dewi Tregaron yn 2025 ac ef oedd yn arwain y pared eleni.

Eleni eto mae Cyngor Tref Tregaron wedi cynnal gwobr i gydnabod cyfraniad gwirfoddol lleol.

Bwriad y wobr yw dathlu a diolch i wirfoddolwr sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i ardal Tregaron.

Derbynwyd sawl enwebiad am fobl sydd wedi gweithio'n ddiwyd a thawel er lles yr ardal a hynny mewn mewn meysydd tebyg i chwaraeon, cymuned, amaeth, plant, pobl ifanc, pobl hŷn neu unrhyw faes arall . Mae yna gymaint o bobl sy'n gwneud gwaith gwych yn y gymuned a hynny heb unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl, felly dyma gyfle i gydnabod ymrwymiad un o sêr yr ardal.

I fod yn ddilys am y wobr roedd rhaid i'r unigolyn a enwebyr:·

- Fyw ym mhlwyf etholiadol Tregaron
- Fod dros 18 mlwydd oed
- Fod wedi gwenud gwaith gwirfoddol sy'n berthnasol i'r dre

Penodwyd panel annibynnol y tu allan i'r Cyngor Tref i benderfynu ar yr enillydd. Hoffai'r panel longyfarch pawb a enwebwyd a chydnabod y gwaith a wneir gan yr holl unigolion a sefydliadau lleol. Mae eu hymroddiad a'u gwaith diflino yn mynd yn bell ac yn gwneud Tregaron yn le arbennig.

Mae Eryl a Delyth Rees wedi bod yn ddeliaid Tŷ Capel Bwlchgwynt ers 50 mlynedd. Maent wedi gweithio yn ddiflino i edrych ar ôl y Capel, Festri a'r Fynwent. Maent yn dathlu 50 mlynedd eleni. Dros y blynyddoedd mae Eryl wedi bod yng nghofal y Frigad Dân leol, aelod o sawl clwb moduro lleol, gwirfoddoli ar ddiwrnod rasus Tregaron a helpu stiwardio yn Eisteddfod Gadeiriol Tregaron.

Erbyn hyn, mae Delyth yn flaenores a hi yw ysgrifennydd y Capel, mae'n Llywydd Cymdeithas y Chwiorydd eleni, yn athrawes Ysgol Sul a'r Clwb Plant ac yn gyn-ysgrifenyddes o'r Gymdeithas Ddiwylliadol. Hi hefyd sydd yn gosod blodau'r allor i bob gwasanaeth. Mae hefyd wedi dal sawl swydd yng Nghangen Merched y Wawr Tregaron ac yn mynychu y Gymdeithas Hanes. Maent wastad yn barod i helpu.

Mae'r enghreifftiau yma yn dangos ei ymroddiad tuag at y gymuned. Mae'n haeddiannol o dderbyn y wobr. Llongyfarchiadau mawr Eryl a Delyth Rees!

Talwyd pleidlais o ddiolch gan Is-Gadeirydd y Cyngor Tref Cyng.Gwion James a gorffenwyd trwy gyd ganu ein anthem cenedlaethol.

*The celebration of St David Tregaron took place on the afternoon of Friday 27th February in the company of Ysgol Henry Richard.*

*The Parade started from the school down through the town towards the Memorial Hall where the Pictôns welcomed us. Everyone was welcomed by the Chairman of the Town Council, Cllr. Rhian Hughes and pupils of Ysgol Henry Richard entertained the audience.*

*Dilwyn Daniel was the winner of the Tregaron St. David's Festival Award in 2025 and he led the parade this year.*

*This year again Tregaron Town Council has held an award to recognize local voluntary contribution.*

*The purpose of the award is to celebrate and thank a volunteer who has made an exceptional contribution to the Tregaron area.*

*Several nominations were received for people who have worked diligently and quietly for the benefit of the area in areas such as sports, community, agriculture, children, young people, older people or any other area. There are so many people who do great work in the community without any recognition at all, so this is an opportunity to recognize the commitment of one of the area's stars.*

*To be valid for the award the individual who nominated had to:*

- *Live in the electoral parish of Tregaron*
- *Be over 18 years old*
- *Having done voluntary work relevant to the town*

*An independent panel outside the Town Council was appointed to decide the winner. The panel would like to congratulate all those nominated and acknowledge the work done by all the local individuals and organisations. Their dedication and tireless work go a long way and make Tregaron a special place.*

*Eryl and Delyth Rees have been stewards of Capel Bwlchgwynt Chapel House for 50 years. They have worked tirelessly to look after the Chapel, Vestry and Cemetery. This year, they are celebrating 50 years of service. Over the years, Eryl has been involved with the local Fire Brigade, has been a member of several local motor clubs, volunteered on race day in Tregaron and helped with stewarding at the Tregaron Chairing Eisteddfod.*

*At present, Delyth is a deacon and the Chapel secretary. She is this year's President of the Sisters' Association, a Sunday School and Children's Club teacher, and a former secretary of the Cultural Society. She is also responsible for arranging the altar flowers for every service. She has held several roles in the Tregaron branch of Merched y Wawr and attends the Historical Society. They are always ready to help.*

*These examples show their dedication to the community, and they are deserving recipients of the award. Many congratulations to Eryl and Delyth Rees!*

*A vote of thanks was given by the Vice-Chairman of the Town Council Cllr. Gwion James and we all finished singing our national anthem.*



Mr Eryl a Mrs Delyth Rees enillwyr y wobr
*Mr Eryl and Mrs Delyth Rees, winners of the award.*




Dilwyn Daniel oedd enillydd Gwobr Gŵyl Dewi Tregaron yn 2025 ac ef oedd yn arwain y pared eleni.
*Dilwyn Daniel was the winner of the Tregaron St. David's Festival Award in 2025 and he led the parade this year.*

Bywyd Newydd ar yr Hen Linell: Gardd Gymunedol yn Nhregaron

Mae gardd gymunedol newydd yn dechrau tyfu yn Nhregaron, gan drawsnewid rhan gyfarwydd o hen reilffordd Heol yr Orsaf yn lle o bwrpas cyffredin a phosibiliadau newydd.

Mae'r lleoliad ei hun yn adrodd stori. Mae'r hen linell reilffordd wedi bod yn rhan o hanes Tregaron ers amser maith, yn atgof o symud a newid. Fel gardd gymunedol, mae bellach yn cymryd rôl newydd: cysylltu pobl yn hytrach na lleoedd. Mae natur linellol y safle yn addas iawn ar gyfer gwelyau wedi'u codi, llwybrau, a chorneli tawel, gan greu coridor gwyrdd sy'n teimlo'n agored ac yn groesawgar.

Gan ei bod yn dal yn y cyfnodau cynnar, mae'r ardd yn cael ei llunio gan drigolion lleol yn gweithio gyda'i gilydd. Mae gwirfoddolwyr yn clirio'r tir, yn adeiladu gwelyau, ac yn cynllunio beth i'w dyfu, o lysiau a pherlysiau i flodau sy'n gyfeillgar i beillwyr. Mae cyffro a rennir yn y camau cyntaf hyn—ymdeimlad bod rhywbeth ystyrlon yn cael ei greu o'r gwaelod i fyny.

Mae ei lleoliad ar Heol yr Orsaf yn gwneud yr ardd yn hawdd ei chyrraedd, gan wahodd pobl sy'n pasio heibio i stopio, edrych, ac efallai ymuno. Dros amser, mae ganddi'r potensial i ddod yn rhan gyfarwydd a gwerthfawr o fywyd bob dydd yn Nhregaron—lle ar gyfer sgyrsiau anffurfiol, digwyddiadau cymunedol, ac eiliadau tawel ymysg y gwyrddni.

*New Life on the Old Line: A Community Garden in Tregaron*

*A new community garden is beginning to grow in Tregaron, transforming a familiar stretch of the old railway line on Station Road into a place of shared purpose and possibility.*

*The location itself tells a story. The old railway line has long been part of Tregaron's history, a reminder of movement and change. As a community garden, it is taking on a new role: connecting people rather than places. The linear space lends itself naturally to raised beds, pathways, and quiet corners, creating a green corridor that feels both open and welcoming.*

*Still in its early stages, the garden is being shaped by local residents working together. Volunteers are clearing ground, building beds, and planning what to grow, from vegetables and herbs to pollinator-friendly flowers. There is a shared excitement in these first steps—a sense that something meaningful is being created from the ground up.*

*Being situated on Station Road makes the garden easily accessible, inviting passers-by to stop, look, and perhaps get involved. Over time, it has the potential to become a familiar and valued part of daily life in Tregaron—a place for informal conversations, community events, and quiet moments among greenery.*





















## Cynllun Trefi Taclus Ceredigion

## *Ceredigion Tidy Towns Scheme*

Mae Cynllun Trefi Taclus Ceredigion yn darparu cymorth ariannol i helpu i wella ymddangosiad a bywiogrwydd trefi gwledig. Y nod yw creu canol trefi glanach, mwy deniadol sy'n annog ymwelwyr, rhoi hwb i fusnesau lleol, a meithrin balchder cymunedol.

Amcanion:

- Rhoi hwb i fusnesau lleol a nifer yr ymwelwyr trwy greu canol trefi glanach, mwy
- deniadol.
- Annog buddsoddiad trwy ddenu busnesau newydd a chefnogi gwelliannau eiddo.
- Cryfhau balchder ac ymgysylltiad cymunedol trwy leihau fandaliaeth a sbwriel.
- Gwella twristiaeth a brandio lleoedd trwy drefi sy'n apelio yn weledol

Bu'r Cyngor Tref yn llwyddiannus yn sicrhau grant o £10,000 er mwyn glanhau a gwella golwg y dref.

Defnyddir y grant ar gyfer glanhau'r strydoedd, gosod baneri addurnol, gwella golwg Toiledau'r Mart, darparu blodau ar gyfer y dref, prynu offer a biniau casglu sbwriel, a darparu arwyddion ar gyfer y parc.

Dechreuodd y prosiectau a ariannwyd ym mis Mawrth a byddant wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mai 2026.

*The Ceredigion Tidy Towns Scheme provides financial support to help clean up, improve the appearance and vibrancy of rural towns. The aim is to create cleaner, more attractive town centres that encourage visitors, boost local businesses, and foster community pride.*

*Objectives:*

- *Boost local businesses and footfall by creating cleaner, more attractive town centres.*
- *Encourage investment by attracting new businesses and supporting property*
- *improvements.*
- *Strengthen community pride and engagement by reducing vandalism and littering.*
- *Enhance tourism and place branding through visually appealing towns*

*The Town Council was successful in getting a grant of £10,000 towards cleaning and improving the appearance of the town.*

*The grant will be used for street cleaning, the installation of bunting, improving the appearance of the Mart Toilets, providing flowers for the town, purchasing litter-picking equipment and bins, and installing signage for the park.*

*The funded projects began in March and will be completed by the end of May 2026.*